------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Ebrill 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.00-09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Yr Ardoll Brentisiaeth - blwyddyn yn ddiweddarach

(09.15-10.15) (Tudalennau 1 - 26)

Eluned Morgan AM, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-Adran Addysg Bellach a Prentisiaethau, Llywodraeth Cymru

Sam Huckle, Pennaeth Polisi Prentisiaethau, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EIS(5)-09-18(p1) Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

EIS(5)-09-18(p2) Ymatebion rhanddeiliaid i ymchwiliad y Pwyllgor ar yr Ardoll Brentisiaeth: gwaith dilynol

## 3 Papurau i'w nodi

(10.15-10.20)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**3.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ynghylch Dysgu yn y Gwaith**

(Tudalen 27)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-09-18(p3) Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ynghylch Dysgu yn y Gwaith

**3.2 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Dysgu yn y Gwaith**

(Tudalennau 28 - 30)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-09-18(p4) Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Dysgu yn y Gwaith

**3.3 Llythyr gan y Cadeirydd at Openreach yn gofyn am ragor o wybodaeth - dyddiedig 19 Mawrth 2018**

(Tudalennau 31 - 32)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-09-18(p5) Llythyr gan y Cadeirydd at Openreach yn gofyn am ragor o wybodaeth - dyddiedig 19 Mawrth 2018

**3.4 Gwybodaeth ychwanegol gan Openreach mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 19 Mawrth**

(Tudalen 33)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-09-18(p6) Gwybodaeth ychwanegol gan Openreach mewn ymateb i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 19 Mawrth (Saesneg yn unig)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r drafodaeth ar eitem 5, eitem 6 ac eitem 7 ac o ddechrau cyfarfod y Pwyllgor ar 25 Ebrill

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Llythyr gan y Llywydd ynghylch Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit

(Tudalennau 34 - 35)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-09-18(p7) Llythyr gan y Llywydd ynghylch Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit

### 5.2 Brexit: Y wybodaeth ddiweddaraf am y goblygiadau posibl ar gyfer busnes y pwyllgorau - Fforwm y Cadeiryddion, 7 Chwefror 2018

(Tudalennau 36 - 39)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-09-18(p8) Brexit: Y wybodaeth ddiweddaraf am y goblygiadau posibl ar gyfer busnes y pwyllgorau - Fforwm y Cadeiryddion, 7 Chwefror 2018 (Saesneg yn unig)

## 6 Trafod yr adroddiad drafft: Ardaloedd Menter

(10.20-10.55)

(Tudalennau 40 - 80)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-09-18(p9) Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

## 7 Trafod yr adroddiad drafft: Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Craffu ar ôl Deddfu

(10.55–11.30) (Tudalennau 81 – 117)

EIS(5)-09-18(p10) Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

**Ôl-drafodaeth breifat** (11.30–11.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Trosolwg

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi sicrhau bod y sgiliau sydd o fewn ei rhaglen brentisiaethau yn cymharu â'r rhai sy'n cael eu darparu ledled y DU a gwledydd eraill y G7. Mae'r dull yn cefnogi symudedd a dilyniant gweithwyr o fewn galwedigaethau, rhwng swyddi ac ar draws sectorau; mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig mewn marchnad fyd-eang sy'n ehangu. Wrth i awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial ddod yn arferol mewn unrhyw swydd, bydd prentisiaethau'n hwyluso safonau sgiliau, gan sicrhau bod ein gweithlu yn gymwys ac yn cynyddu'r momentwm mewn perthynas â chaffael gwybodaeth dechnegol; yn enwedig oherwydd yr heriau a ddaw gyda Brexit.

Yn ystod Medi 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei Strategaeth Genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb'. Ym mis Rhagfyr 2017, i gefnogi'r gwaith o gyflawni 'Ffyniant i Bawb', fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei Gynlluniau Gweithredu Economaidd ar gyfer Cymru. Cafodd y Cynllun Cyflogadwyedd ei gyhoeddi ar 20 Mawrth 2018 ac mae'n datgan sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhai sydd ymhelaf oddi wrth y farchnad lafur, pobl sy'n anweithgar yn economaidd a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu diswyddo, i'r gwaith[1]. Mae'r Rhaglen Brentisiaethau yn gwneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau hyn.

## Prentisiaethau

Mae'r Polisi Sgiliau Prentisiaethau'[2] wedi'i anelu at anghenion economi Cymru, gan ymateb ac atal newidiadau diwydiannol a chyfuno hynny â ffocws ar well canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Heb graidd sgiliau cadarn, mae'n anodd i unigolyn ffynnu yn y farchnad swyddi. Er mwyn bod yn benodol, mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi tynnu sylw at ei tair blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen:

- *dileu'r bwlch cymwysterau rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig;*
- *hybu cynhwysiant, amrywiaeth a gwaith teg; a*
- *ymateb i'r bylchau o ran sgiliau ar hyn o bryd a'r rhai a rhagwelir.*

### Dileu'r bwlch cymwysterau rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig

Rydyn ni'n paratoi ar gyfer newid radical mewn byd gwaith er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n barod ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw yfory megis awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a roboteg drwy wneud y canlynol:

- Gwella cynnwys ein Fframweithiau Prentisiaeth. Yn ystod 2017, fe wnaethon ni ystyried cynnwys pob un o'n Fframweithiau Prentisiaethau, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn fwy perthnasol i anghenion cyflogwyr. Eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau ar gyfer dylunio Prentisiaethau a byddwn ni'n ymgynghori ynghylch proses newydd ar gyfer cymeradwyo'r Fframweithiau Prentisiaethau yng Nghymru, ynghyd â'u a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Byddwn ni'n comisiynu fframweithiau newydd, gan ddefnyddio themâu a gyflwynwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, ar y cyd â chyflogwyr yn eu hardaloedd, ac a gymeradwywyd gan Fwrdd Cynghori Prentisiaethau newydd Cymru.

[1] http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?lang=cy
[2] http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?skip=1&lang=cy

- Ehangu prentisiaethau uwch. Rydyn ni'n bwriadu cynyddu nifer y Fframweithiau Prentisiaethau Uwch (ar lefelau 4 a 5) a darparu ffocws allweddol ar Wyddoniaeth, Technoleg a Pheirianneg i greu cenhedlaeth newydd o weithwyr proffesiynol i hybu arferion arloesol, creu cynnyrch newydd, a chodi lefelau cynhyrchiant. Mae'r Gweinidog wedi gosod targed gweithredol, sef chwe mil o leiaf o ddechreuwyr newydd ar y Brentisiaeth Uwch, gan ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2018/2019.
- Cyflwyno Prentisiaethau Gradd. O fis Medi ymlaen, bydd Prentisiaethau Gradd Ddigidol/TGCh (ar lefel 6) ar gael am y tro cyntaf yng Nghymru. Ac ychydig wedyn byddwn ni'n cynnig Prentisiaethau Gradd mewn Peirianneg.
- Byddwn ni'n parhau â'r gwaith rydyn ni wedi'i ddechrau gyda chyflogwyr (mewn sectorau allweddol) i integreiddio Prentisiaethau i'w cynlluniau ar gyfer eu gweithlu, a hynny er mwyn cefnogi'r rhai sydd eisoes mewn gwaith a'r rhai sy'n newydd i'r farchnad lafur.
- Hybu newid ar draws y tirlun sgiliau. Byddwn ni'n defnyddio gwaith hwyluso ein clystyrau sectorau cyflogwyr i hybu'r gwaith o ddarparu sgiliau modern mewn partneriaeth â chyflogwyr allweddol a'u cadwyni cyflenwi.
- Un maes gwaith newydd yw gweithio â sectorau penodol a allai fod dan anfantais oherwydd Brexit, a hynny gyda'r nod o ganfod bylchau posibl o ran sgiliau, a newidiadau sylweddol yn y strwythur economaidd.

## Hybu cynhwysiant, amrywiaeth a gwaith teg

Mae cyfrifoldeb arnom i dorri'r cylch sgiliau isel a chyflogau isel. I lawer o bobl – yn enwedig rhai sydd â chymwysterau isel – nid yw gwaith â chyflogau isel yn darparu cam i swydd sy'n talu'n well. Yn hytrach, mae pobl yn cael eu dal yn gaeth mewn swydd â chyflog isel. Rydyn ni'n canolbwyntio ar ddilyniant i hyfforddiant uwch. Pobl ddifreintiedig sydd â'r mwyaf i'w ennill o ddysgu sgiliau newydd sy'n arwain at gyfleoedd gyrfa, ac mae'r rhaglen brentisiaethau'n darparu'r ddau beth drwy'r canlynol:

- Y camau a gymerwyd i sicrhau nad diwedd y daith yw prentisiaethau ar y lefel isaf ond, yn hytrach, ei dechrau.
- Caffael a defnyddio pecyn cymorth cydraddoldeb cynhwysfawr i gefnogi darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr, sy'n cynnwys modiwlau penodol ar hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipio a rhagfarn anymwybodol.
- Gweithio i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n cael Prentisiaeth. Gweithio gyda Remploy i baru'r rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Dewis Gwaith â chyfleoedd prentisiaeth. Mae hyn yn dwyn ynghyd ymdrech dwy raglen bwysig, gan sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad at waith a chael sgiliau a fydd yn gymorth iddyn nhw aros a gwneud cynnydd mewn cyflogaeth. Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi dweud bod disgwyl i lefelau cyfranogiad pobl anabl ddyblu flwyddyn ar ôl blwyddyn drwy gydol cyfnod y Cynulliad hwn. Gweler Tabl 1 isod.
- Sicrhau bod yr elfen Gymreig o'r Arolwg Cyflogau Prentisiaethau yn cael ei chynnal yn rheolaidd, a gweithio gyda darparwyr Prentisiaethau a chyflogwyr i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd yn yr arolwg hwnnw. Dwysau ein hymdrechion i ddylanwadu ar y Comisiwn Cyflogau Isel a Llywodraeth y DU mewn perthynas â lefelau cyflogau Prentisiaethau.

Data ar ddysgwyr anabl – dysgwyr Prentisiaethau fesul blwyddyn Academaidd

| Tabl 1 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn Anabl | 98.7 % | 98.7% | 98.6% | 98.5% | 98.4% |
| Anabl (yn effeithio ar ddysgu) | 1.3 % | 1.3% | 1.3% | 1.4 % | 1.5 % |
| (mae elfen ychwanegol fach o bethau anhysbys) | | | | | |


## Ymateb i'r bylchau o ran sgiliau sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r rhai a ragwelir

Mae tua 23% o brentisiaid rhwng 16 ac 19 oed (gweler siart 1). Ar hyn o bryd, mae angen cefnogaeth ac anogaeth i helpu prentisiaid i gymryd y cam tuag at gyflogaeth oherwydd dyma un o'r adegau o newid pwysicaf ym mywyd neb. Mae tua 21% o'n prentisiaid rhwng 20 a 24 oed. Dyma adeg allweddol o newid o ran y farchnad lafur; rydyn ni'n gweld pobl ifanc yn dechrau ar brentisiaeth ar ôl arholiadau Safon Uwch neu ar ôl cwrs Addysg Bellach neu Addysg Uwch. Rydyn ni'n bwriadu ymateb i'r bylchau o ran sgiliau yn y dyfodol drwy wneud y canlynol:

- Cynyddu nifer y bobl 16-24 oed, fel canran o'n rhaglen, flwyddyn ar ôl blwyddyn wrth i ni symud drwy gyfnod y llywodraeth hon. At hyn, byddwn ni'n parhau i gryfhau a chyflwyno adroddiadau ar ein cymorth cyn prentisiaethau, sef:
    - Prentisiaethau Iau i ddisgyblion 14-16 oed, er mwyn darparu cam cyntaf tuag at brentisiaeth; a
    - Rhaglen Paratoi ar gyfer Prentisiaeth i bobl ifanc 16 i 24 oed, i ddarparu profiad gwaith cefnogol ac ymyrraeth mewn coleg.
- Nid ydym wedi darparu Gwasanaeth Paru Prentisiaethau newydd fel y bwriadwyd. Rydyn ni wedi cymryd amser i edrych ar rywbeth i ddod yn ei le ac ar y tirwedd cysylltiedig sydd ei angen ar gyfer Prentisiaethau o ran ei lwyfan a'r ffordd y mae'n gweithio. Rydyn ni'n symud tuag at broses fwy pendant a chylchol ar gyfer hysbysebu llefydd prentisiaethau. Manteisir ar gyfleoedd i wneud hyn yn ystod cyfnodau pryd mae myfyrwyr yn gadael yr ysgol/coleg, ynghyd ag ardal newydd i gyflogwyr er mwyn dangos yr amrywiaeth o gyflogwyr sy'n gysylltiedig â Phrentisiaethau.

- Y peth newydd pwysicaf yw ein rhaglen Rhoi Cynnig Arni, i geisio codi proffil addysg alwedigaethol drwy ganiatáu i bobl ifanc gael profiad galwedigaethol mewn coleg neu ysgol. Bu'n llwyddiannus tu hwnt, gan ymgysylltu â mwy na 55,000 o bobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf.

Siart 1





**Ffynhonnell: StatsCymru**

**Perfformiad**

Mae ein polisi prentisiaethau'n amlinellu sut byddwn ni'n darparu arlwy prentisiaeth o ansawdd uchel, a hynny yn unol ag anghenion Economi Cymru, ac yn creu 100,000 o leiaf o lefydd prentisiaethau o ansawdd uchel yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn. Rydyn ni'n gwneud cynnydd da iawn mewn perthynas â'r ymrwymiad hwn. Rydyn ni wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn prentisiaethau, o £96 miliwn (2016-17) i £115.5 miliwn (2017-18). Mae £115 miliwn arall yn cael ei fuddsoddi yn 2018-19 er mwyn sicrhau bod cyflogwyr bach, canolig a mwy yn cael mynediad at brentisiaethau mewn meysydd blaenoriaeth. Mae Siart 2 yn dangos cyfeiriad cyffredinol y daith i brentisiaethau dros gyfnod 2015-2017.

Siart 2 - Nifer lawn y dysgwyr yn 2016/2017 ar Brentisiaethau, fel y cyhoeddwyd yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf 7 Chwefror 2018.




Nifer y rhaglenni dysgu newydd a ddechreuodd:

| Blwyddyn | Prentisiaethau Sylfaen | Prentisiaethau | Prentisiaethau Uwch |
|---|---|---|---|
| 2016/2017 | 9,890 | 9,550 | 4,675 |
| 2015/2016 | 8,410 | 9,300 | 5,980 |

*Mae'r gostyngiad yn ffigyrau'r Prentisiaethau Uwch a ddechreuodd wedi digwydd oherwydd rheolau llymach ar recriwtio ac asesiadau cychwynnol ar brentisiaid er mwyn sicrhau y bydden nhw'n gallu cael y Fframwaith Prentisiaeth llawn.*

Rhaid i ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth gael amrywiaeth o gymwysterau er mwyn cael y ‘fframwaith’ prentisiaeth llawn. Yn 2016/17, llwyddodd 81 y cant o ddysgwyr ym mhob un o'r rhaglenni Prentisiaeth Sylfaen, Prentisiaeth a Phrentisiaeth Uwch i wneud hyn, sef yr un gyfradd ag yn 2015/16. 2016/2017 – Y meysydd perfformiad gorau o ran cyraeddiadau'r fframwaith oedd TGCh, Peirianneg ac Addysg.

## Cyflogwyr, yr Economi a’r Ardoll Brentisiaethau

Mae’r galw o ganlyniad i ddyfodiad yr ardoll Brentisiaethau yn dal yn flaenllaw yn ein gwaith ar brentisiaethau, o ran ymgysylltu, cynnwys rhaglenni, a chreu cynlluniau datblygu gweithluoedd a recriwtio prentisiaid. Ond bydd angen i ni gofio bod yr ardoll wedi cael ei chyflwyno ar adeg pryd mae Llywodraeth y DU wedi gwneud bron i £1 biliwn o doriadau mewn termau real yng nghyllid Cymru ar gyfer gwasanaethau bob dydd ers 2010-11. Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn prentisiaethau ac mae’n helpu’r rhai sy’n talu’r Ardoll a’r rhai nad ydynt yn talu'r Ardoll ledled Cymru.

Nid yw ffordd Llywodraeth y DU o ymdrin â'r Ardoll wedi gweithio. Yn Lloegr, mae niferoedd y prentisiaethau wedi gostwng yn gyflym. Mae Llywodraeth Cymru, fel llawer o gyflogwyr mawr, yn dadlau bod angen newid sylfaenol i weithredu system sy'n mynd ati’n gadarnhaol i gynorthwyo cyflogwyr i feithrin y sgiliau sydd eu hangen mewn gweithle sy'n newid drwy'r amser. Er enghraifft, drwy newid y ffocws tuag at fesurau rhyddhad trethi i gwmnïau sy'n recriwtio prentisiaid newydd yn hytrach na pharhau gyda rhywbeth sydd mewn gwirionedd yn dreth gyflogaeth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod pwy sy'n talu'r ardoll Brentisiaethau (dim ond Cyllid a Thollau EM sy’n gallu cael gafael ar y data hwnnw) ond rydyn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i weithio gyda chyflogwyr ledled Cymru ar brentisiaethau er mwyn hybu ein nodau ar gyfer Economi Cymru.

Yng Nghymru, rydyn ni’n ceisio cefnogi ein cyflogwyr drwy amrywiaeth o gamau:

- Rydyn ni wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru dan arweiniad cyflogwyr, a hynny o dan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru lle mae cynrychiolaeth gan gyflogwyr sy'n talu’r ardoll a rhai nad ydynt yn talu’r ardoll. Bydd angen i’r Bwrdd herio a hyrwyddo’r cynnwys dysgu sydd o fewn y rhaglen brentisiaethau, gan sicrhau bod bylchau mewn fframweithiau/safonau yn cael eu hystyried ac yn cael eu trin yn sydyn, a lle bo modd, gan sicrhau bod modd trosglwyddo a chydnabod sgiliau prentisiaethau, yn enwedig mewn diwydiannau sy’n gweithredu dros ffiniau.

- Bydd pecyn cymorth cyfathrebu diwygiedig ar gael i gyflogwyr cyn yr haf. Y gynulleidfa darged fydd pob cyflogwr yng Nghymru. Rydyn ni eisiau trefnu'r canllaw i ddiwallu anghenion pob cyflogwr ac i dawelu unrhyw bryderon bod y mynediad at brentisiaid i gyflogwyr sy’n talu'r ardoll yn wahanol i’r rhai nad ydynt yn talu’r ardoll. Byddwn ni'n parhau i dynnu sylw at ein hamcanion polisi yn y pecyn cymorth. Rydyn ni wedi sefydlu a chryfhau tîm bach o swyddogion pwrpasol i weithio gyda chyflogwyr i adnabod eu hanghenion ac i ddeall sut gellir addasu cynnwys fframweithiau prentisiaethau.

- Mae cyflogwyr o bob maint yn cael yr un lefel gychwynnol o gymorth, cyngor ac arweiniad. Yn y dyfodol, bydd y gwaith hwn yn mynd ati i chwilio am gyngor a darparu cyngor i gyflogwyr sy'n talu'r ardoll, ynghyd â gweithgareddau marchnata. Os bydd angen rhagor o gymorth, bydd hwnnw'n cael ei deilwra i'w hanghenion penodol unwaith y bydd y gwaith diagnostig cychwynnol wedi cael ei gwblhau. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â 400 a mwy o gwmnïau (naill ai yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau cyswllt) ledled Cymru. Hefyd, mae Busnes Cymru – Y Porth Sgiliau wedi cyfeirio dros 700 o ymholiadau gan gyflogwyr at Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, sef y corff ar gyfer Cymru gyfan sy'n cynrychioli'r holl sefydliadau neu unigolion sy'n gysylltiedig â'r diwydiant hyfforddi. Rydyn ni hefyd wedi darparu 3 digwyddiad rhanbarthol 'Cwrdd â'r Darparwr'.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach i gynnal a gwella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â'r sector, a lluniwyd cynllun gweithredu ar y cyd i gefnogi'r gwaith hwn. Nid yw canfyddiadau busnesau bach wedi newid rhyw lawer yn yr ystyr nad yw'r 'trafodiad' ardoll yn effeithio arnynt. Maen nhw'n credu bod y ddarpariaeth a'r mynediad at ddarpariaeth prentisiaeth yn aros yr un fath. Ond mae angen gwneud rhagor i barhau i ymgysylltu â busnesau bach ledled Cymru ac mae camau marchnata penodol wedi cael eu cynllunio yn y maes hwn er mwyn gwireddu'r nod.

Clystyrau sectorau – Rydyn ni wedi bod yn gweithio â chwmnïau mawr i fabwysiadu dull sy'n ymwneud â 'chlystyrau' er mwyn ymgysylltu a darparu prentisiaethau a darparu gwaith teg mewn amrywiaeth o sectorau, sef:

- Iechyd – Nyrsio Deintyddol; Therapïau Arbenigol, Technegydd Labordy, Gwybodeg Data a Fferylliaeth
- Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal – Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol.
- Y Sector Cyhoeddus – cynllunio gweithluoedd Awdurdodau Lleol Cyllid y Sector Cyhoeddus.
- Economi Sylfaen - Sector Bwyd a Diod, Pysgodfeydd, Amaethyddiaeth a Ffermio, Sgiliau Treftadaeth a sgiliau adeiladu Treftadaeth, Manwerthu a Chwaraeon.
- Meysydd Gwerth Uchel - Amgylcheddol / Datgarboneiddio, Gwyddorau Bywyd, Metro/Rheilffyrdd, TGCh (seiber, data mawr, meddalwedd), Cyfreithiol, Rheolaeth Siartredig; Adeiladu; Peirianneg / Gweithgynhyrchu, sector 'Pŵer, y Cyfryngau / Newyddiaduraeth, Awyrofod a systemau Gwelliant Parhaus.

Mae rhanddeiliaid yn bryderus am ein ffordd o ymdrin â mater sgiliau ar gyfer yr Economi Sylfaenol, yn enwedig wrth i brentisiaethau uwch a lefel dechnegol barhau i ehangu a chael eu blaenoriaethu. Mae'r Uned Prentisiaethau wedi bod yn monitro'r tirwedd lefel 2 yn ofalus. Cyn bo hir, bydd yn edrych ar yr opsiwn o greu rhaglen ar gyfer yr economi sylfaenol sy'n cyflenwi darpariaeth o fath lefel 2 mewn rhai meysydd sy'n debygol o gael eu hailgategoreiddio fel rhai sydd y tu allan i brentisiaethau. Mae gwaith datblygu yn y maes hwn i fod i ddechrau yn ystod mis Mehefin 2018.

**Casgliad**

Ers ei gyhoeddi yn Chwefror 2017, gwnaethpwyd cynnydd i wireddu'r weledigaeth sydd yn ein Polisi Sgiliau Prentisiaethau; ond yn bwysicach mae'r polisi eisoes yn dylanwadu ar y system sgiliau ehangach. Mae swyddogion Addysg Bellach ac Addysg Uwch, yr Uned Prentisiaethau, a swyddogion o'r Ysgolion wedi llwyddo i greu rhaglenni a phrosiectau i greu llwybr sgiliau galwedigaethol mwy unigryw. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wrando ar bryderon gan gyflogwyr sy'n talu'r Ardoll a rhai nad ydynt. Rydyn ni'n hyderus bod ein ffordd o ymdrin â phrentisiaethau yng Nghymru yn deg, gyda ffocws allweddol ar newid strwythurol i hybu Economi Cymru.

Mae linc isod i ymatebion rhanddeiliaid i ymchwiliad y Pwyllgor ar yr Ardoll Brentisiaeth: gwaith dilynol

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=298&RPID=1510401381&cp=yes

Please find below a link to the stakeholder responses to the Committee's inquiry on Apprenticeship Levy: one year on

http://senedd.assembly.wales/mgConsultationDisplay.aspx?id=298&RPID=1510401381&cp=yes

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Eitem 3.1

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

19 Mawrth 2018

Annwyl Eluned

**Dysgu seiliedig ar waith**

Fel y gwyddoch, yn y cyfarfod ar 14 Mawrth, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant ar ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17.


Nododd y Pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol yn dweud bod angen cynnal gwaith dilynol mewn perthynas â'r tri darparwr dysgu seiliedig ar waith a arolygwyd yn ystod 2016/17.

Mewn tystiolaeth lafar, clywodd y Pwyllgor fod gan Estyn bryderon am ddysgu seiliedig ar waith a bod a wnelo'r rhain yn bennaf ag arweinyddiaeth y darparwyr. Clywodd y Pwyllgor fod y safonau'n dda neu'n well yn hanner y darparwyr yn unig ac nad oedd cynnydd y dysgwr na'r cyfraddau cwblhau fel y dylid disgwyl iddynt fod.

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael amlinelliad o'ch barn am y pwyntiau uchod a gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerir yn hyn o beth.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb ar y mater hwn. Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, o ystyried perthnasedd y maes hwn i bortffolio'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC, Cadeirydd**

Cc Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P/EM/1181/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Ebrill 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth parthed ansawdd dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Roeddech yn crybwyll rhai agweddau a amlygwyd yn arolygiad diweddar Estyn o ddysgu seiliedig ar waith yn ymwneud ag arweinyddiaeth a deilliannau i ddysgwyr.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cyrraedd y safon ansawdd uchaf, ac fel chi, roeddwn yn bryderus am y diffygion a amlygwyd yn adroddiad blynyddol Estyn. Rwyf wedi amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd isod.

**Monitro perfformiad darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith**

Efallai eich bod yn ymwybodol mai perthynas gytundebol sy'n rheoli darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith, a bod perfformiad a chyflawniad yn cael eu monitro'n barhaus. Fel rhan o'n prosesau rheoli contract, rydym o bryd i'w gilydd yn gweld gwendidau ym mherfformiad darparwr dysgu a byddwn yn gweithio gyda'r darparwr i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

Mae Llywodraeth Cymru yn gallu terfynu cytundeb darparwr dysgu seiliedig ar waith gyda dim mwy na 60 diwrnod o rybudd, ac ni fydd yn oedi cyn gwneud hynny os yw'n credu nad yw darparwr yn gallu unioni perfformiad annigonol o fewn terfyn amser derbyniol. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i roi'r cyfle a'r amser i'r holl ddarparwyr wella eu perfformiad cyn cymryd y cam hwn. Credwn fod hwn yn cynnig elfen o sefydlogrwydd, er budd gorau i ddysgwyr a chyflogwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os yw arolygiad Estyn yn barnu bod perfformiad darparwr dysgu seiliedig ar waith yn ‘Anfoddhaol’ neu’n ‘Ddigonol’, ni chaiff hynny ei gymryd yn ysgafn. Ar ôl arolygiad, mae’n ofynnol i bob darparwr gyflwyno cynllun gweithredu cadarn i Lywodraeth Cymru, yn manylu sut y bydd yn mynd i’r afael ag argymhellion Estyn. Yna, bydd swyddogion yn cwrdd ag Estyn a’r darparwr i drafod effeithiolrwydd y cynllun. Bydd y cyfarfod hwn yn arwain at un o ddau ganlyniad:

- Os yw’r cynllun yn berthnasol, yn ddigon pellgyrhaeddol ac yn anad dim, yn gyraeddadwy, bydd swyddogion yn caniatáu i’r darparwr gadw’r cytundeb o dan amodau monitro llym. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud y darparwr yn ymwybodol o’r posibilrwydd y bydd yn colli’r cytundeb ar unrhyw adeg os na all ddangos tystiolaeth o welliannau digonol ac amserol mewn perfformiad. Byddai hyn yn cynnwys ail ddyfarniad ‘Anfoddhaol’ ar ôl arolygiad newydd gan Estyn.

- Os na fydd y cynllun yn ymddangos yn ddigon da i wella perfformiad, neu os nad yw’n bosibl gwneud gwelliannau yn ddigon cyflym, hysbysir darparwr am y bwriad i derfynu’r cytundeb.

O’r tri darparwr dysgu seiliedig ar waith a arolygwyd yn 2016/17, roedd y swyddogion eisoes wedi mynegi pryderon am elfennau o’u perfformiad, ac wedi cydweithio â nhw i fynd i’r afael â’r materion dan sylw. Fodd bynnag, ni chawsom ein hysbysu am yr holl bwyntiau a glustnodwyd gan Estyn, am mai dim ond drwy’r broses arolygu y gellir eu clustnodi.

Cynhelir arolygiadau bob saith mlynedd, felly yn anochel, bydd amserlen yr arolygiad blynyddol yn canolbwyntio ar sampl o dri neu bedwar darparwr. Nid ydym o’r farn bod y darparwyr a arolygwyd gan Estyn yn gynrychioliadol o’r rhwydwaith dysgu seiliedig ar waith ehangach. O’r 19 o ddarparwyr sydd â chytundeb uniongyrchol, ar hyn o bryd dim ond pedwar darparwr sy’n peri gofid i ni; arolygwyd tri o’r rhain eleni a’r pedwerydd yn 2016, ac a barnwyd eu bod yn ‘Ddigonol’.

Yn ystod cylch arolygu 2017/18, arolygodd Estyn ddau o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith ychwanegol. Cafodd y ddau ddarparwr ganlyniadau cadarnhaol yn yr arolygiad.

**Deilliannau i ddysgwyr**

Mae eich llythyr hefyd yn sôn am ddatblygiad dysgwyr a chyfraddau cwblhau. Ein prif ddull o fesur perfformiad ar gyfer prentisiaethau yw ‘llwyddiant fframwaith’: canran yr holl ddysgwyr sy’n cwblhau ac yn cyflawni fframwaith lawn o’r cymwysterau yn eu rhaglen brentisiaeth. Rydym wedi cynnal cyfraddau llwyddiant prentisiaethau o fwy nag 80% am nifer o flynyddoedd, ac nid yw hwn yn faes sy’n peri gofid i mi.

Rwy’n ymwybodol bod arolygiadau Estyn yn talu sylw manwl i ddeilliannau dysgwyr, yn arbennig pa mor hir y mae’n cymryd i ddysgwyr gwblhau eu rhaglenni. Nid yw’n arfer gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio’r mesur ‘cwblhau amserol’ am nifer o resymau: rydym yn gwerthfawrogi bod unigolion yn dysgu ar gyflymder gwahanol, a bod gwahanol lefelau o bwysau yn y gweithle, ac rydym yn disgwyl i ddarparwyr dysgu i fod yn hyblyg er mwyn cefnogi dysgwyr i gyrraedd eu nodau, hyd yn oed os yw’n cymryd mwy o amaser i rai nag i eraill. Mae’n werth nodi yn ogystal bod y data sydd ar gael yn dibynnu ar amcangyfrifon y darparwyr dysgu eu hunain o ddyddiadau cwblhau’r rhaglenni dysgu, yn hytrach nag ar ddadansoddiad gwrthrychol o ba mor hir y ‘dylai’ dysgwyr unigol gymryd i gyrraedd y nod. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn monitro’r cyfraddau cwblhau amserol, a byddant yn herio’r darparwyr os daw’n amlwg bod cyfran uchel o’r dysgwyr yn cymryd mwy o amser na’r disgwyl i gwblhau eu cymwysterau.

**Cefnogi gwella ansawdd yn y sector dysgu seiliedig ar waith**

Rydym hefyd wedi cyflwyno rhaglen ehangach o waith i gefnogi gwelliannau yn y sector dysgu seiliedig ar waith. Arweinir hyn gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, corff cynrychioliadol y sector. Yn 2016, penodwyd Pennaeth Ansawdd yn Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf, a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Dechreuodd deiliad y swydd, Kelly Edwards ym Mis Mai 2016 ac yn ddiweddar rydym wedi estyn cyfnod y swydd hyd fis Mai 2021.

Rôl Kelly yw cefnogi a herio'r sector dysgu seiliedig ar gwaith er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth. Cychwynnodd ystod eang o raglenni sy'n cynnwys rhwydwaith Rheolwyr Ansawdd, rhaglen flynyddol Addysgu, Dysgu ac Asesu, a chyfres o ddigwyddiadau addysgol i arweinwyr ac ymarferwyr. Mae'r rhain yn cwmpasu meysydd sy'n cynnwys addysgu digidol, rhoi adborth effeithiol i ddysgwyr, hyfforddi ac asesu i addysgu. Dyma'r tro cyntaf i'r sector dysgu seiliedig ar waith gydlynu rhaglen o gefnogaeth, ac mae'r adborth hyd yma wedi bod yn hynod o gadarnhaol. Yn ogystal, rydym yn hybu'r arfer gorau drwy'r Gwobrau Prentisiaethau a'r Gwobrau VQ, lle y ceir categorïau i gydnabod tiwtoriaid ac aseswyr rhagorol.

Ar bwynt mwy cyffredinol, byddwch yn ymwybodol ein bod yn datblygu cynigion i sefydlu comisiwn newydd, sef Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru, fydd â chyfrifoldeb dros gynllunio, ariannu ac ansawdd ar draws addysg ôl-orfodol a'r sector hyfforddi, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith. Y bwriad yw trosglwyddo'r cyfrifoldeb statudol am sicrwydd ansawdd a gwelliannau i'r Comisiwn, gan roi iddo rôl fwy blaenllaw yn y dasg o sicrhau gwelliannau. Byddwn yn lansio cam nesaf yr ymgynghoriad yn fuan, a byddwn yn holi barn rhanddeiliaid am sut y gall y Comisiwn newydd gefnogi'r gweithlu a datblygu arweinyddiaeth ar draws yr holl sectorau.

Gobeithio bod yr ymateb yma yn tawelu eich meddwl ynglŷn â'r modd yr ydym yn gweithio i sicrhau'r safonau uchaf o ddarpariaeth ar draws y sector dysgu seiliedig ar waith, gyda'r nod o sicrhau bod yr holl ddarpariaethau addysgu yn cydweddu â'r enghreifftiau o arferion da a rhagorol sy'n bodoli'n barod.

Yn gywir

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

cc Russell George AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Eitem 3.3

Kim Mears
Strategic Infrastructure Development
Openreach
Kelvin House
123, Judd Street
London, WC1H 9NP

19 Mawrth 2018

Annwyl Kim,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Chwefror yn ymateb i bwyntiau gweithredu Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a godwyd yn ein cyfarfod ar 25 Ionawr. Mae'r Pwyllgor wedi trafod eich ymateb a byddai'n hoffi i chi ymhelaethu ar yr atebion a roddwyd gennych, os gwelwch yn dda.

Yn y cyfarfod, gwnaethom ofyn faint o adeiladau sydd â chysylltiad technoleg Ffibr i'r Eiddo (FTTP) o dan gynllun Superfast Cymru sy'n cael mynediad at wasanaethau cyflym iawn gan ddarparwr ar wahân i BT. Yn eich ymateb, rydych yn nodi bod FTTP wedi'i reoleiddio ac ar gael i bob darparwr ei ddefnyddio am yr un gost gyfanwerth. Gwnaethoch gynnwys linc i wybodaeth am FTTP, Fibre FAQ, sy'n nodi: 'we've already given more than 27.4 million homes and business premises access to fibre broadband, and we're adding around 28,400 each week'. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'ch ymateb faint o'r adeiladau sydd â chysylltiad FTTP o dan Superfast Cymru sy'n cael mynediad at wasanaethau gan ddarparwr ar wahân i BT. A allech chi egluro hyn, os gwelwch yn dda?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

Gwnaethom hefyd ofyn faint o bobl sy'n manteisio ar wasanaethau cyflym iawn BT drwy rwydwaith Superfast Cymru ar hyn o bryd, a beth yw'r ffigur cyfatebol mewn ardaloedd lle y mae Openreach wedi darparu band eang cyflym iawn ar sail fasnachol. Nid oedd ateb i'r cwestiwn hwnnw yn yr ymateb a anfonwyd gennych. Tybed a allech chi ymhelaethu ar eich ymateb.

Edrychaf ymlaen at gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

22 March 2018

Thank you for allowing Openreach to give evidence to you on 25th January. In response to the actions:

A question relating to Fibre-to-the-Premises, what number of premises connected with FTTP technology under Superfast Cymru are accessing superfast services from a provider other than BT?

Having reviewed the question, we cannot provide this information directly as it would be commercially detrimental to our customers to do so. What we can say however is our FTTP product is regulated and open to all providers to use. When it becomes available, all providers are notified at the same time. In other words, there is no discrimination in how the product is offered. A list of providers that offer the service are listed here:

https://www.homeandbusiness.openreach.co.uk/fibre-broadband/ultrafast-broadband/ultrafast-fibre-buy-it-now.

What the current take-up of BT's superfast services via the Superfast Cymru network is. What is the corresponding figure in areas where Openreach has deployed superfast broadband on a commercial basis?

The current aggregate take-up in Superfast Cymru areas is 41%. In our commercial areas, take-up is broadly in line with this.

Kind Regards,

Kim Mears

# Eitem 5.1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5.2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon